

Cydweithio fel y gallwch gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnoch, pryd a ble fyddwch chi ei angen.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPB) yn cynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, y trydydd sector a'r sector annibynnol a chynrychiolwyr gofalwyr.

Ein nod yw gwella iechyd a lles y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu trwy wneud yn siŵr bod pobl yn cael y cymorth iawn, ar yr amser iawn, yn y lle iawn.

Rydym yn dod â chyfres o wasanaethau ynghyd i'ch cefnogi i heneiddio'n dda. Gelwir hyn yn **@Home** gan eu bod gyda'i gilydd yn dod â chefnogaeth mor agos i'ch cartref â phosibl.





Dros y 5 i 10 mlynedd nesaf, fe welwch welliannau i wasanaethau yn ein rhanbarth sy'n cynnwys:

- Cyfleusterau iechyd a gofal newydd yng nghanol cymunedau ar draws y rhanbarth, gan leihau eich angen i deithio i'r ysbyty.
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n hawdd cael gafael arnynt ac sy'n golygu y gallwch reoli eich gofal.
- Gwasanaethau i'ch helpu i gadw'n iach.
- Cefnogaeth pan fyddwch yn yr ysbyty i ddychwelyd adref cyn gynted â phosibl.

Os hoffech wybod mwy am sut rydym yn gweithio i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal i bobl hŷn, ewch i www.cavrpb.org neu sganiwch y ddolen ar y dde.

